# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Hydref 2022

Amser: 09.35 - 11.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13017

# O bell, Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Vikki Howells AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>John Griffiths AS<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Rhun ap Iorwerth AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Bethan Garwood (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Aled Elwyn Jones (Swyddog)<br>Lisa Griffiths (Swyddog)<br>Lisa Hatcher (Swyddog) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 John Griffiths oedd yn cadeirio’r eitem gyntaf fel y Cadeirydd dros dro dynodedig a chroesawodd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.2 Esgusododd Vikki Howells a Peredur Owen Griffiths eu hunain ar gyfer yr eitem gyntaf. Roedd Rhianon Passmore a Rhun ap Iorwerth yn bresennol yn eu lle.

## 2 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

2.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).

## 3 Adroddiad cydymffurfio Grwpiau Trawsbleidiol

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Llywydd ysgrifennu at yr holl Aelodau yn eu hatgoffa o'r rheolau ar weithredu Grwpiau Trawsbleidiol yn ogystal â'u cyfrifoldebau fel Cadeiryddion Grwpiau Trawsbleidiol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Llywydd gadarnhau sefyllfa'r tri grŵp sy’n ymddangos yn segur, gan gynnwys a ydynt wedi cwrdd neu'n bwriadu cwrdd, neu a ydynt am ddadgofrestru'n wirfoddol.

## 4 Cofrestr Buddiannau'r Aelodau - newid arfaethedig i MS Forms

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i dreialu’r defnydd o Microsoft Forms ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r Gofrestr Buddiannau.

## 5 Ymatebion ymgynghoriad Grwpiau Trawsbleidiol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunwyd o fwyafrif na fyddai adolygiad sylfaenol o ddefnydd Grwpiau Trawsbleidiol o adnoddau'r Senedd.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weithredwr er mwyn canfod sut mae'r rheolau ariannol ar hyn o bryd yn gweithredu mewn perthynas â phresenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd a digwyddiadau Grwpiau Trawsbleidiol.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor i nifer o fân newidiadau i'r rheolau presennol a gofyn i swyddogion eu diweddaru yng ngoleuni hyn. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd i drafod y rheolau diweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

6.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).